



Beth yw Meithrin Perthynas Amhriodol gydag Oedolion?

- Mae meithrin perthynas amhriodol (*grooming*) gydag oedolion yn ffurf ar gam-drin sy'n cynnwys cam-drin rhywun nes ei fod yn ynysig, yn ddibynnol ac yn fwy agored i niwed o gamfanteisio.
- Pan fydd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl am feithrin perthynas amhriodol, maen nhw'n meddwl am blant. Ond gall oedolion fod yn agored i niwed o hyn hefyd.
- Gall meithrin perthynas amhriodol arwain at sawl gwahanol fath o niwed, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a cham-drin corfforol, rhywiol ac ariannol.
- Mae posib dysgu sut i adnabod arwyddion meithrin perthynas amhriodol gydag oedolion: anncrafttrust.org/signs-of-grooming-in-adults-what-to-watch-out-for/

#DiogeluCymru